**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Cynghori ar AoHNE Gŵyr

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Nos Lun, 29 Ionawr 2024 am 6.30pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| P R Hood-Williams | A H Stevens |

**Aelodau'r Grŵp Llywio**

| | | |
|---|---|---|
| Judith Doyle | Howard Evans | Stephen Heard |
| Alan Kearsley-Evans | Peter Lanfear | Hamish Osborn |
| Clive Scott | Paul Tucker | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jake Cosgrove | Swyddog y Prosiect Cymunedau a Natur |
| Eveleyn Gruchala | Cydlynydd Gwirfoddol yr Amgylchedd Naturiol |
| Ursula Jones | Swyddog y Prosiect Cymunedau a Natur |
| Paul Meller | Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Mike Scott | Swyddog AoHNE Gŵyr |
| Kathryn Thomas | Swyddog Mannau Gwyrdd Cymunedol |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| John Watkins | Cymdeithas Tirweddau Cenedlaethol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): L James, S E Keeton a/ac N L Matthews
Aelodau o'r Grŵp Llywio(wyr): Carrie Townsend Jones a/ac Barbara Parry

---

## 16 Datganiadau o fuddiannau.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 17 Cyflwyniad - Cymdeithas 'National Landscapes' - Ailfrandio'r AoHNEau yng Nghymru. (Ruth Colebridge / John Watkins)

Rhoddodd John Watkins, Cymdeithas Tirweddau Cenedlaethol, gyflwyniad manwl a llawn gwybodaeth i'r Grŵp Cynghori ynghylch ail-frandio AoHNE yng Nghymru. Roedd y manylion a ddarparwyd yn y cyflwyniad yn cynnwys y canlynol:

- Pam nawr? Yr hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni.
- Adeg dyngedfennol ar gyfer natur a'r hinsawdd.
- Estyn croeso cynnes i bawb.
- Ein gweledigaeth - tirweddau hardd, ffyniannus rydym i gyd yn teimlo'n rhan ohonynt.
- Ein cenhadaeth - gwarchod ac adfywio ein tirweddau a gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu eu mwynhau.
- Egwyddorion ein brand – dod â phobl at ei gilydd; parhau i symud ymlaen; manteisio ar y daith; gwrando ac ehangu.
- Bydd cael hunaniaeth fwy unedig ar draws y rhwydwaith yn dangos yn well ein maint ar y cyd, ein huchelgais, ein heffaith ac yn creu cydnabyddiaeth ar lawr gwlad i ymwelwyr.
- Mewn rhai grwpiau oedran, mae pobl yn ymwybodol o ddwywaith cymaint o barciau cenedlaethol nag y maent o AoHNE.
- Cyfle i adeiladu teulu cyson o frandiau.
- Brandio - creu eiconau ar gyfer AoHNE er mwyn cyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol, gan greu hunaniaeth weledol.

Cyfeiriodd yn gadarnhaol hefyd at ail-lansio AoHNE i Dirweddau Cenedlaethol yn Lloegr y llynedd ac at ei ymweliad diweddar â phenrhyn Gŵyr, lle cyfarfu â Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd.

Cafwyd trafodaeth faith ar gynnwys y cyflwyniad, yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer yr AoHNE, cydweithio, dewisiadau Llywodraeth Cymru, goblygiadau peidio â dod yn Dirwedd Genedlaethol i'r AoHNE a manteision dod yn Dirwedd Genedlaethol.

Dywedodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, y byddai adroddiad yn crynhoi sylwadau ac ymatebion aelodau'r Grŵp Cynghori yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Cynghori ar 26 Chwefror 2024. Ychwanegodd, yn seiliedig ar y sylwadau hynny a thrafodaeth bellach yn y cyfarfod hwnnw, y byddai adroddiad ac argymhellion yn cael eu cyflwyno i Gyngor Abertawe.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd Tirweddau Cenedlaethol am ei gyflwyniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.57pm

**Cadeirydd**